



## **BYDD siopwyr a phobl ar eu gwyliau yn cael h-wyl fawr yn y Rhyl y Pasg hwn.**

Mae Cyngor Tref y Rhyl wedi ymuno gyda Chanolfan Siopa'r Rhosyn Gwyn i drefnu digwyddiadau ar gyfer y dref dros benwythnos y Pasg.

Mae'r cyngor tref yn trefnu dwy gwningen ar stiltiau ar ddydd Llun y Pasg, a bydd lolipops siocled yn cael eu rhoi i siopwyr ac ymwelwyr. Mae'r danteithion wedi eu cyfrannu gan y Rhosyn Gwyn, sydd hefyd yn cynnal gweithgareddau creffttau ei hun dros benwythnos gwyl y banc.

Meddai maer y Rhyl, y Cynghorydd Alan James: "Bydd ein cerddwyr stiltiau yn bresenoldeb gwahanol a da ar y stryd fawr a'r ardaloedd o gwmpas ar Lun y Pasg, yn cyfarch siopwyr ac ymwelwyr fel ei gilydd. Rydym yn ddiolchgar i'r Rhosyn Gwyn am ddarparu danteithion i ni eu dosbarthu ar y dydd, ac yn falch o weithio gyda nhw i gefnogi'r dref a'i busnesau."

Ynghyd â'r cerddwyr stiltiau, mae'r Rhosyn Gwyn wedi trefnu penwythnos o hwyl – gwneud cardiau, sioeau hud a lledrith, gweithdy pypedau a helpa drysor, oll yn rhedeg dros y penwythnos.



Cynhelir gweithdy gwneud cardiau Pasg y Rhosyn Gwyn ar ddydd Gwener y Groglith (Mawrth 30) o 10am-3pm. Bydd yr helfa drysor yn digwydd ar ddydd Gwener y Groglith, Sadwrn y Pasg (Mawrth 31) a dydd Llun (Ebrill 2), a chynhelir y gweithdai pypedau ar ddydd Llun Gŵyl y Banc (Ebrill 2), 10am-3pm. Bydd y cerddwyr stiltiau allan at ddydd Llun Ebrill 2 rhwng 11am - 3pm.

Meddai Rheolwr Canolfan y Rhosyn Gwyn Sue Nash: “Rhyngom ni a’r cyngor tref, mae digon i’w fwynhau dros y Pasg. Mae gweithio gyda’n gilydd fel hyn i gynnig profiadau newydd a gwahanol yn ein galluogi i gefnogi busnesau’r Rhyl.”

I gael gwybod mwy, ewch i [www.rhyltowncouncil.org.uk](http://www.rhyltowncouncil.org.uk) a [www.whiterosecentre.com](http://www.whiterosecentre.com)

